

# COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDAU

ALLWCH CHI?



# ALLWCH CHI...



- Chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o fynd i'r afael â throseddau yn eich ardal?
- Helpu pobl i leisio barn ar blismona a dod â'r gymuned at ei gilydd i fynd i'r afael â throseddau?
- Dwyn y Prif Gwnstabl a'r heddlu i gyfrif am leihau troseddau?

## OS MAI 'GALLAF' OEDD EICH ATEB, DARLLENWCH Y WYBODAETH ISOD...

Mae'r gwaith o blismona bob amser wedi dibynnu ar gydweithrediad a chydsyniad y bobl. Roedd hynny'n wir yng nghyfnod Robert Peel – pan aeth y dinasyddion cyntaf oedd â'u bryd ar gadw trefn gyhoeddus ati i ffurfio grwpiau er mwyn amddiffyn cymdeithas - ac mae'n dal i fod yn wir heddiw.

Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn adfywio'r egwyddorion democrataidd hynny, gan sicrhau bod gan y cyhoedd gynrychiolydd etholedig sy'n gweithredu er budd y dinesydd a'r cymunedau a gynrychiolir ganddo.

Mae'r heddlu yn darparu gwasanaeth hanfodol a diduedd i unigolion, cymunedau a chymdeithas yn ei chyfanrwydd. Mae ein heddweision yn peryglu eu

bywydau bob dydd i'n diogelu ni a'n heiddo. Yn ogystal â'r llu o straeon o ddewrder sy'n ein hysbrydoli a gaiff sylw yn y wasg, mae miloedd o bobl broffesiynol ymroddedig yn gweithio'n galed bob dydd i wasanaethu'r cyhoedd a lleihau troseddau.

## MWY O ATEBOLRWYDD GAN YR HEDDLU

Ar 15 Tachwedd 2012, am y tro cyntaf erioed, bydd y cyhoedd yn ethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a fydd yn atebol am y ffordd yr eir i'r afael â throseddau yn ei ardal heddlu.

Fel bod systemau atebolrwydd yr heddlu yn gryfach ac yn fwy tryloyw, bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn cael eu hethol gan y cyhoedd i ddwyn Prif Gwnstabiliaid a'u heddluoedd i gyfrif. Yn y bôn, bydd yr heddlu yn atebol i'r cymunedau a wasanaethir ganddo. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau strategol yr heddlu, lleihau troseddau, penodi ac, os oes angen, ddiswyddo'r Prif Gwnstabl a sicrhau bod systemau plismona yn effeithlon ac yn effeithiol.

“Yr heddlu yw'r cyhoedd a'r cyhoedd yw'r heddlu; yn syml, aelodau o'r cyhoedd yw'r heddlu sy'n cael eu talu i roi eu holl sylw i ddyletswyddau y mae'n ofynnol i bob dinesydd eu cyflawni er lles y gymuned a'i bodolaeth.”

*Syr Robert Peel, Ysgrifennydd Cartref a osododd sylfeini'r system blismona fodern, 1829*



## AI DYMA'R RÔL I MI?

Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn aelodau pwysig o'r cymunedau a gynrychiolir ganddynt, ond nid oes rhaid i chi fod yn wleidydd i sefyll. Yn wir, nid oes angen i chi fod ynghlwm wrth unrhyw blaid wleidyddol.

Os ydych yn ymrwymedig i wasanaethu'r cyhoedd a bod gennych y sgiliau i fod yn arweinydd da, yna gallai'r rôl hon fod yn ddelfrydol i chi. Gallai fod gennych brofiad yn y sector preifat, y sector gwirfoddol neu'r sector cyhoeddus a gallech ddod o unrhyw gefndir.

Nid oes cynrychiolaeth ddigonol o ferched, pobl o leiafrifoedd ethnig na phobl anabl mewn swyddi etholedig. Dyma gyfle i bobl o bob lliw a llun sefyll a gwneud gwahaniaeth. Dyma'ch cyfle chi i'ch cynnig eich hun a helpu i ddiogelu'r cyhoedd a chefnogi'r heddlu i leihau troseddau. Dyma'ch cyfle i sefyll mewn etholiad ar gyfer rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

## A ALLAF SEFYLL MEWN ETHOLIAD AR GYFER RÔL COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDAU?

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn gyfrifol am sicrhau bod eich heddlu yn darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i'r cyhoedd. Gall unrhyw un sefyll ar gyfer y rôl hon, ar yr amod eich bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r canlynol:

- bod yn ddinasyddion Prydeinig, y Gymanwlad neu'r UE
- bod yn 18 oed neu'n hŷn
- byw yn ardal yr heddlu lle maent yn dymuno sefyll.

Ni allwch sefyll mewn etholiad ar gyfer rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau os yw'r canlynol yn gymwys:

- rydych wedi cael eich collfarnu am drosedd garcharadwy
- rydych yn was cyhoeddus gan gynnwys: gweision sifil, barnwyr, swyddogion yr heddlu, aelodau o'r lluoedd arfog rheolaidd, cyflogeion cynghorau yn ardal yr heddlu, cyflogeion asiantaeth sy'n gysylltiedig â'r heddlu, cyflogeion asiantaethau eraill y llywodraeth, deiliaid swyddi y mae cyfyngiadau gwleidyddol yn gymwys iddynt, aelodau o staff yr heddlu (gan gynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu) neu aelodau o awdurdod yr heddlu.

Caiff aelodau'r Tŷ Cyffredin, senedd yr Alban a senedd Ewrop a Chynulliad Cenedlaethol Cymru sefyll, ond bydd angen iddynt ildio eu seddi cyn gallu derbyn swydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

Caiff Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau eu cynnal ym mhob un o ardaloedd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, heblaw am Lundain, lle y bydd gan Ddinas Llundain Awdurdod yr Heddlu o hyd a bydd Maer Llundain yn cyflawni rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau o ran yr Heddlu Metropolitaidd.

“Hoffwn i gael mwy o ddylanwad ar y ffordd y mae'r heddlu yn gweithredu. Maen nhw'n fwy amlwg nag o'r blaen ond dwi byth wedi bod yn hollol siŵr sut y galla i gyfrannu.”



“Drwy sefydlu comisiynwyr yr heddlu a throseddau a gaiff eu hethol yn uniongyrchol yn lle awdurdodau anweladwy'r heddlu, gallwn greu cyswllt uniongyrchol rhwng yr heddlu a'r cyhoedd, gan sicrhau bod y cyhoedd yn cyfrannu at y gwaith o bennu blaenoriaethau'r heddlu a bod ganddo'r pŵer i ddwyn yr heddlu i gyfrif am gadw ein strydoedd yn ddiogel.”

Y Prif Weinidog David Cameron

# CYFLAWNI ER BUDD Y CYHOEDD

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, bydd eich rôl yn cynnwys gweithio gyda'r cyhoedd, yr heddlu a phartneriaid lleol i sicrhau bod system blismona effeithiol yn cael ei gweithredu, yn ogystal â chyfrannu at ofynion cenedlaethol.

## **Pennu cyfeiriad strategol gwaith plismona ynghyd â'i atebolrwydd**

Bod yn atebol i etholwyr.

Pennu blaenoriaethau plismona strategol.

Dwyn yr heddlu i gyfrif drwy'r Prif Gwnstabl, ymgynghori â'r cyhoedd a'i gynnwys.

## **Gweithio gyda phartneriaid i atal troseddau a mynd i'r afael â hwy**

Sicrhau bod yr heddlu yn ymateb yn effeithiol i bryderon y cyhoedd a bygythiadau i'w ddiogelwch.

Hyrwyddo a hwyluso gwaith cydgysylltiedig ar ddiogelwch y gymuned.

Cynyddu hyder y cyhoedd yn y ffordd y caiff troseddau eu lleihau a'r ffordd y caiff y system blismona ei gweithredu.

## **Lleisio barn y cyhoedd, pobl agored i niwed a dioddefwyr troseddau**

Sicrhau bod blaenoriaethau'r cyhoedd yn cael eu cyflawni ac nad anwybyddir y bobl fwyaf agored i niwed. Cydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## **Cyfrannu at y gwaith o bennu adnoddau ar gyfer ymateb yr heddlu i fygythiadau rhanbarthol a chenedlaethol**

Ar y cyd â phartneriaid eraill, sicrhau bod cyfraniad plismona effeithiol at drefniadau cenedlaethol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau trawsffiniol eraill yn unol â'r Gofyniad Plismona Strategol.

## **Sicrhau gwerth am arian**

Bod yn gyfrifol am ddyrannu grantiau plismona oddi wrth lywodraeth ganolog a phennu'r praecept a gudir drwy'r dreth gyngor.

Comisiynu gwasanaethau gan bartneriaid a fydd yn cyfrannu at leihau troseddau.



“Rydych yn clywed am yr heddlu yn dymchwel grwpiau cyffuriau rhyngwladol. Pethau fel hynny sy’n eu hatal rhag cyrraedd ein strydoedd. Dwi byth wedi meddwl amdano o ddifrif ond mae’n siŵr bod eu hangen allan yno yn gwneud y pethau mawr oherwydd yn y pen draw mae’n helpu i’n cadw ni oll yn fwy diogel.”

## PLISMONA LLEOL

Bydd yn ofynnol i chi lunio Cynllun yr Heddlu a Throseddau mewn ymgynghoriad agos â’ch Prif Gwnstabl, sy’n nodi’r blaenoriaethau ar gyfer eich heddlu ynghyd â’r ffordd y cânt eu cyflawni. Yn ogystal â gwrando ar farn pobl, rhaid i chi sicrhau bod y cyhoedd yn deall sut mae ei ardal yn cael ei phlismona. Mae hyn yn golygu cyhoeddi gwybodaeth glir, cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gynnydd a helpu’r cyhoedd i’ch dwyn chi a’r heddlu i gyfrif. Drwy roi mwy o wybodaeth i’r cyhoedd, bydd yn ymddiddori’n fwy mewn gwaith plismona.

## PLISMONA CENEDLAETHOL

Yn ogystal â sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn ymateb i flaenoriaethau lleol, bydd hefyd angen i chi helpu i gyfrannu at y gwaith o ymdrin â bygythiadau sy’n galw am ymateb plismona cenedlaethol. Mae’n hanfodol eich bod yn gweithio gyda heddluoedd eraill ar faterion plismona cenedlaethol - gan gynnwys gwaith ar wrthderfysgaeth a throseddau cyfundrefnol, fel sy’n ofynnol gan yr Ysgrifennydd Cartref.

## CYLLID YR HEDDLU

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, byddwch yn gyfrifol am holl gyllid yr heddlu gan gynnwys cyllid Llywodraeth ganolog ac elfen praesept yr heddlu o’r dreth gyngor. Byddwch yn pennu’r gyllideb, yn dyrannu arian ac asedau i’r Prif Gwnstabl ac yn penderfynu faint o braesept o’r dreth gyngor a roddir i ardal yr heddlu. Bydd cyllidebau’n amrywio yn dibynnu ar faint yr heddlu ond byddant yn cynnwys degau, ac mewn ambell achos, gannoedd o filiynau o bunnoedd.

## Y TÎM

Bydd angen i chi benodi prif weithredwr, a fydd yn cyflogi staff gweinyddol ac yn cyflawni rôl fonitro er mwyn sicrhau bod safonau yn cael eu cyrraedd. Byddwch hefyd yn penodi prif swyddog cyllid i roi cyngor ar faterion ariannol ac effaith penderfyniadau gwariant.

Bydd gennych y pŵer i benodi neu ddiswyddo’r Prif Gwnstabl gyda chytundeb, ond y Prif Gwnstabl fydd yn parhau i benodi holl swyddogion yr heddlu. Mae heddluoedd yn amrywio o ychydig filoedd i 10,000 o bobl.



“Mae'r heddlu yn cyflawni amrywiaeth o ddyletswyddau, o gerdded i lawr y stryd fawr, i ddelio â phobl feddw sy'n creu llawer o drafferth, a hyd yn oed fygythiadau terfysgol... Rwy'n gobeithio os bydd angen help arna i y byddan nhw yno i mi.”

## ANNIBYNIAETH YR HEDDLU

Bydd Prif Gwnstablaid yn parhau i fod yn atebol i'r gyfraith am arfer pwerau'r heddlu. Byddant yn atebol i chi am weithredu system blismona effeithlon ac effeithiol, rheoli adnoddau a gwariant ac, yn y pen draw, blismona yn eich ardal chi.

Er y bydd y Prif Gwnstabl, ei gwnstablaid a'i staff yn weithredol annibynnol, byddwch yn gallu gofyn am adroddiad gan y Prif Gwnstabl ar unrhyw adeg ynghylch y ffordd y cyflawnir eu swyddogaethau.

## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Ni ellir cyflawni rôl anferthol fel hon yn unigol. Bydd partneriaid o bob rhan o sector diogelwch y gymuned a'r sector cyfiawnder troseddol yn chwarae rhan hanfodol. Bydd angen i chi weithio gyda'r sefydliadau cywir er mwyn cyflawni eich Cynllun yr Heddlu a Throseddau. Bydd yr un ddyletswydd arnoch chi ac asiantaethau lleol perthnasol (gan gynnwys awdurdodau lleol, y gwasanaeth tân, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth iechyd) i gydweithredu. Byddwch yn gallu dwyn ynghyd Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol i drafod materion allweddol a gofyn am adroddiadau gan bartneriaethau os bydd gennych bryder mawr. Bydd angen i chi ddod i gytundeb ag amrywiaeth o bartneriaid cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n gweithio ym meysydd cyfiawnder troseddol, diogelwch y gymuned a diogelu'r cyhoedd. Gellid gwneud hyn gan ddefnyddio cymysgedd o grantiau, contractau neu fathau eraill o gomisiynu.

## CRAFFU AC ATEBOLRWYDD

Bydd y ffaith eich bod wedi cael eich ethol yn uniongyrchol gan y cyhoedd yn golygu eich bod yn cael eich dwyn i gyfrif ar ddiwrnod yr etholiad. Mae Paneli'r Heddlu a Throseddau yn cael eu sefydlu ym mhob un o ardaloedd yr heddlu i helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn eich cefnogi. Byddant hefyd yn craffu ar eich gwaith ar ran y cyhoedd yn rheolaidd. Byddant yn helpu i sicrhau tryloywder. Bydd angen i chi drafod eich cynlluniau gyda hwy ac ystyried eu safbwyntiau.

Bydd gan Arolygiaeth Cwnstablaid Ei Mawrhydi y pŵer hefyd i arolygu heddluoedd ac adrodd yn ôl i'r cyhoedd â gwybodaeth wrthrychol a chadarn a fydd yn sail i benderfyniadau hyddysg am effeithiolrwydd yr heddlu a'ch gwaith chi fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

# RHAGOR O WYBODAETH

Os credwch y gallech gyflawni'r rôl hon, dechreuwch drwy ymweld â'r gwefannau canlynol:

Tudalennau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau  
[www.homeoffice.gov.uk/police/police-crime-commissioners](http://www.homeoffice.gov.uk/police/police-crime-commissioners)

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau: Cwestiynau ac Atebion  
[www.homeoffice.gov.uk/police/police-crime-commissioners/questions](http://www.homeoffice.gov.uk/police/police-crime-commissioners/questions)

Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011  
[www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/13/contents/enacted](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/13/contents/enacted)

Adroddiad ar gyflog Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau gan y Bwrdd Adolygu Cyflogau Uwch Swyddogion  
[www.ome.uk.com/Police\\_and\\_Crime\\_Commissioners.aspx](http://www.ome.uk.com/Police_and_Crime_Commissioners.aspx)

**Y Protocol:** Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi cyflwyno gerbron y Senedd y Protocol, sy'n nodi sut y bydd y trefniadau newydd o ran llywodraethu gwaith plismona yn gweithio. Mae'n egluro rolau a chyfrifoldebau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, Swyddfa'r Maer er Plismona a Throseddau, Prif Gwnstabiliaid, Paneli'r Heddlu a Throseddau a Phanel yr Heddlu a Throseddau Cynulliad Llundain. Mae'n amlinellu'r hyn y disgwylir i'r cyrff hyn ei wneud a sut y disgwylir iddynt weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â throseddau a gwella plismona. [www.parliament.uk](http://www.parliament.uk)

**Y Gofyniad Plismona Strategol:** Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi cyflwyno Gofyniad Plismona Strategol cysgodol, sef datganiad ynghylch y galluoedd cyfunol y bydd disgwyl i heddluoedd ledled Cymru a Lloegr feddu arnynt er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau trawsffiniol megis terfysgaeth, argyfyngau sifil, anhrefn gyhoeddus, digwyddiadau ar y we a throseddau cyfundrefnol. [www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/shadow-spr](http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/shadow-spr)

# GWYBODAETH DDEFNYDDIOL ARALL

Y Comisiwn Etholiadol [www.electoralcommission.org.uk](http://www.electoralcommission.org.uk)

**Cael swydd etholedig:** Cymorth i oresgyn y rhwystrau penodol a wynebir gan bobl anabl sydd am sefyll fel Aelodau Seneddol, cynghorwyr neu swyddogion etholedig eraill  
<http://homeoffice.gov.uk/equalities/equality-public-political>

Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona  
[www.npia.police.uk](http://www.npia.police.uk)

Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu  
[www.ipcc.gov.uk](http://www.ipcc.gov.uk)

Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu  
[www.apa.police.uk](http://www.apa.police.uk)

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu  
[www.acpo.police.uk](http://www.acpo.police.uk)

Cymharydd Troseddau a Phlismona Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi [www.hmic.gov.uk/crime-and-policing-comparator](http://www.hmic.gov.uk/crime-and-policing-comparator)

Data Troseddau Lefel Stryd [www.police.uk](http://www.police.uk)

**Unrhyw gwestiynau eraill?** E-bostiwch eich cwstiwn i [pccinfo@homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:pccinfo@homeoffice.gsi.gov.uk)

  
Swyddfa Gartref

Tachwedd 2011 Hawlfraint y goron  
ISBN: 978-1-84987-612-4